

Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, 11 Mehefin 2026, 7.00 yh yn y Neuadd Drefol

General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth 11 Mehefin 2026 at 7.00pm in the Neuadd Drefol

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn y Neuadd Drefol neu arsylwi'n rhithol drwy gysylltu â ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

Members of the public can join the meeting in the Neuadd Drefol or remotely by contacting ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

1. **Croeso/*Welcome*** Croesawyd pawb. Cadarnhaodd AJ y byddai'n cadeirio'r cyfarfod heddiw yn absenoldeb EW/*Welcome to all. AJ confirmed that he would be chairing today's meeting in EW's absence.*
2. **Presennol ac Ymddiheuriadau/ *Present and apologies***
 - 2.1 **Presennol/*Present*:** Ashley Jones (is-gadeirydd), Gwyn Vaughan Jones, Y cyng. Meryl Roberts, Sarah Roberts, Tony Owen, Emma Fon Orr, Steven Murray (Clerc Asedau) a Rhianon Davies-Jones (Clerc).
 - 2.2 **Ymddiheuriadau/*Apologies*:** Sian Llywelyn, Sion Harris, Einir Williams (Cadeirydd) a Nia Jones.
3. **Cymeradwyo cofnodion Mai / *Approve May minutes*** - Cymeradwywyd gan/*accepted by SR a TO.*
4. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ *Declaration of interest, benefits, connection*** - Dim/*None.*
5. **Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol/*Matter arising from the previous minutes*** - Soniodd MR ei bod wedi bod yn edrych am baent ar gyfer y ffens yn y parc, ond ei bod yn cael trafferth dod o hyd i baent coch addas. Gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw awgrymiadau eraill. Dywedodd SR ei fod wedi gallu dod o hyd i baent addas, a chytunwyd y byddai'r lliwiau coch, gwyrdd a gwyn yn parhau/ *MR mentioned that she had been looking at paint for the fence in the park but was having difficulties in finding red paint. She asked if anyone had any other suggestions. SR able to find a suitable paint and it was agreed that red, green and white would remain.*
6. **Adroddiad ariannol / *financial report***

6.1 Y llyfr arian/ *Cash book*

I FEWN

R&M Utilities - rhent Maes parcio	£800.00
Dref Werdd - rhent Neuadd Drefol	£100.00
Pobl Odd - rhent Neuadd Drefol	£20.00
Meryl Roberts - rhent Neuadd Drefol	£50.00
Meryl Roberts - ad-daliad	£8.00
Pritchard a Griffiths - claddu	£524.00

ALLAN

BT - internet	£39.54
Alan Williams - cynnal a chadw	£234.00
Cameron Jones - torri gwair	£1300.00
Ffon Clerc	£13.00
NEST - pensiwn	£62.79
Dwr Cymru - dwr swyddfa	£94.85
Rhiannon - Cyflog Clerc	£1794.39
Steven - Cyflog	£1278.80
PAYE & NIC	£392.44
British Gas - gas swyddfa	£50.31
Xero UK Ltd - cyfrifon	£44.40
Smartest energy - trydan swyddfa	£49.62
Chat GPT	£7.00
Zoom	£16.79
Siop a Chaffi Llanfrothen - bwyd	£154.00
Brookhill Home & Garden - compost	£36.99 (grant bioamrywiaeth) (talw Meryl nol)
Rock Engineering Ltd - parc	£8,352.76 (taliad olaf)
Defib Store - padiau newydd	£162.00
Zurich - yswiriant 26-27	£2,587.38
Un Llais Cymru - hyfforddiant	£44.00
Pritchard a Griffiths - claddu	£720.00
Rawson Digital - argraffu	£176.53
Aubergine - gwefan newydd	£910.80

6.2 Ffurflen Blyneddol 25-26/ *Annual Return 25-26* - Esboniodd RDJ fod CG wedi cynnal yr archwiliad mewnol, a bod copi o'r adroddiad wedi'i anfon at yr holl Gynghorwyr. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol gan bawb, a byddai'n cael ei hanfon at Archwilio Cymru erbyn diwedd y mis/ *RDJ explained that CG can carried out their internal audit and a copy of the report had been sent to all the Councillors. The*

Annual Return was passed by all and would be sent to Audit Wales by the end of the month.

- 6.3 Anfoneb gan Arag Law/ *Invoice from Arag Law* - Cadarnhaodd RDJ fod CTP wedi derbyn anfoneb TAW gan Arag Law am y gwaith cyfreithiol a gyflawnwyd mewn cysylltiad â'r tribiwnlys. Cyfanswm yr anfoneb oedd £7,023.62. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag Arag Law, ac maent wedi cytuno y gall CTP dalu hanner yr anfoneb y mis yma, gyda'r hanner sy'n weddill yn cael ei dalu unwaith y bydd ail randaliad y praesept wedi'i dderbyn ddiwedd mis Awst. Roedd yr holl Gynghorwyr yn fodlon â'r trefniant yma, a chytunwyd yn unfrydol/ *RDJ confirmed that CTP had received a VAT invoice from Arag Law for the legal work carried out for the tribunal. The total amount being £7,023.62. Discussions had taken place with Arag Law and they have agreed that CTP can pay half the invoice this month with the next half being paid once the second half of the precept has been received at the end of August. All Councillors were happy with this arrangement, agreed by all.*

7. Eitemau i'w trafod/ Items for Discussion

7.1 Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026/*Town and Community Councils Support Fund 2026* - Esboniodd AJ ei fod wedi ceisio cysylltu â dau gwmni ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb ganddynt. Cadarnhaodd RDJ y byddai'n ceisio cysylltu â'r ddau gwmni i gael y dyfynbrisiau, ond rhybuddiodd fod amser yn brin erbyn hyn gan mai'r dyddiad cau oedd 15 Mehefin/ *AJ explained that he had tried to contact two companies but had not heard anything back from them. RDJ confirmed that she would try and get in touch with both companies for the quotes but did advise that we are now short of time as the deadline is the 15th June.*

7.2 Parc Chwarae Penrhyndeudraeth/ *Playground Penrhyndeudraeth* - Cadarnhaodd SM ei fod wedi cysylltu â thri chwmni i gael dyfynbrisiau ar gyfer ailosod y sleid yn y parc ym Mhenrhyn. Roedd wedi derbyn ymateb gan ddau gwmni, ond nid oedd y trydydd wedi ymateb. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ystyried y ddau ddyfynbris, a chytunwyd y dylid cyfarwyddo GL Jones i atgyweirio'r siglen. Byddai SM yn cysylltu â nhw i wneud y trefniadau. Cytunwyd hefyd y byddai SM yn cysylltu â GL Jones i weld faint fyddai'r gost o atgyweirio'r "springer", a oedd wedi'i ddifrodi'n ddiweddar yn y parc.

SM confirmed that he had been in touch with 3 companies for quotes to replace the swing in the park in Penrhyn. He had heard back from two companies, the third had not responded. The Councillors were asked to consider the two quotes and they were in agreement that GL Jones should be instructed to repair the swing. SM would contact them to make the arrangements. It was also agreed that SM would get in touch with GL Jones to see how much it would cost to fix the "springer" which had recently been damaged in the park.

7.3 Bws Bwrlwm - Prosiect Cymunedol Byw'n Iach/ *Healthy Living Community Project* - Cadarnhaodd RDJ fod cwmni Byw'n Iach wedi cysylltu i ofyn a fyddai'r Cynghorwyr â diddordeb mewn cael y "Bws Bwrlwm" i ymweld â Phenrhyn yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n brosiect cymunedol ar gyfer plant hyd at 11 oed. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr am awgrymiadau ynghylch safle addas ar gyfer cynnal y digwyddiad. Awgrymodd y Cynghorwyr y Parc y Mileniwm gan fod lle parcio a chyfleusterau toiled ar draws y ffordd/ *RDJ confirmed that Byw'n Iach company had been in touch to ask if the Councillors would be interested in the "Bws Bwrlwm" visiting Penrhyn during the school holidays. It is a community project for children up to the age of 11. Councillors were asked for suggestions on an appropriate site to hold the event. Councillors suggested the millenium park as there is parking and toilet facilities across the road.*

8. Eitemiau sefydlog/Regular items

8.1 Mynwent Minffordd Cemetery - Derbyniwyd cwyn ynglŷn â'r fynwent, ond mae'r mater bellach wedi cael sylw. Gofynnodd MR pryd fyddai'r estyniad yn cael ei dorri. Dywedodd SM y byddai hyn yn digwydd tua diwedd mis Awst. Esboniodd pe bai'r estyniad yn cael ei dorri rŵan, y byddai angen ei dorri eto ddiwedd mis Awst, a byddai hynny'n golygu talu ddwywaith/ *We have received a complaint about the cemetery but this has now been addressed. MR asked when the extension will be cut. SM advised that it would be towards the end of August. He explained that if we cut it now it would need to be cut again at the end of August which would mean paying twice.*

8.2 Parc Mileniwm/ *Millennium Park* - Esboniodd RDJ fod y difrod troseddol wedi'i adrodd i'r heddlu, ac rydym bellach yn aros i glywed gan yr heddlu lleol ynglŷn â chynnydd yr achos/ *RDJ explained that the criminal damage has been reported to the police and we are now waiting to hear from the local police with a progress update.*

8.3 Cae Cookes - Cadarnhaodd AJ ei fod wedi cyfarfod ag aelodau eraill is-bwyllgor CTP, ac y byddai copi o nodiadau'r cyfarfod yn cael ei anfon i fewnflwch CTP. Gofynnodd AJ a allai RDJ baratoi ymateb i negeseuon e-bost RG, ac yna byddai'r ymateb hwnnw'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo yng nghyfarfod mis Gorffennaf/ *AJ confirmed that he had met with the other members of the CTP sub-committee and that a copy of their meeting notes would be sent to the ct inbox shortly. AJ asked if RDJ could prepare a response to RG's emails and then this would be reviewed and approved at our July meeting.*

8.4 Cae Chwarae Minffordd *Playground* - Gofynnodd MR a oedd y rowndabowt wedi cael ei atgyweirio. Cadarnhaodd SM ei fod wedi bod yno i'w archwilio ac y byddai'n gofyn i GL Jones faint fyddai'r gost o'i atgyweirio. Cadarnhaodd AJ y byddai'n mynd yno dros y penwythnos i drwsio'r rowndabowt/ *MR asked if the roundabout had been fixed. SM confirmed that he had been there to inspect it and will ask GL Jones*

to see how much it would cost to fix it. AJ confirmed that he would go there on the weekend to fix/repair the roundabout.

8.5 Maes y Parc - Dim/ None.

8.6 Ffyrdd a parcio / parking and road - Cadarnhaodd MR ei bod wedi derbyn nifer o gwynion ynglŷn â choed yn tyfu i mewn i'r ffordd yn Rhiw Pensarn. Mae wedi cysylltu â CG ac yn aros am ymateb. Bydd yn adrodd yn ôl pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael. Soniodd EFO fod CG wedi cynnal gwaith ar yr ardal werdd ym Maes y Garth, ond wedi gosod graean yno ar ôl gorffen y gwaith. Mae hyn wedi arwain at bobl yn defnyddio'r ardal fel man parcio. Cytunwyd y byddai CTP yn cysylltu â CG ynglŷn â'r mater. Gofynnodd AJ hefyd a fyddai'n bosib i CG gysylltu â thrigolion Tyddyn Llwyn, Minffordd, er mwyn gofyn iddynt ystyried parcio eu ceir mewn man arall. Nodwyd nad yw ambiwlansys na pheiriannau tân yn gallu cael mynediad ar hyd y lon yma gan fod y ceir sydd wedi'u parcio ar yr ochr yn culhau'r ffordd. Soniodd AJ hefyd ein bod wedi derbyn cwyn ynglŷn â'r llifogydd o flaen Spar ym Mhenrhyn. Cadarnhaodd MR ei bod eisoes yn ymwybodol o'r mater ac wedi cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

MR confirmed that she had received a number of complaints regarding trees growing into the road at Rhiw Pensarn. She has contacted CG and is awaiting a response. She will report back when further information is available. EFO mentioned that CG had carried out work on the green area at Maes y Garth but had laid gravel there after completing the work. This has resulted in people using the area as a parking space. It was agreed that CTP would contact CG regarding the matter.

AJ also asked whether CG could contact the residents of Tyddyn Llwyn, Minffordd, to ask them to consider parking their cars elsewhere. It was noted that ambulances and fire engines are unable to gain access along this section of road because the cars parked at the side are narrowing the road. AJ also mentioned that a complaint had been received regarding flooding in front of Spar in Penrhyn. MR confirmed that she was already aware of the issue and had contacted Gwynedd Council's Highways Department.

9. Gohebiaeth/ Correspondence

9.1 Cyngor Gwynedd - Rhybudd - Cau'r Ffordd o'r Ffatri i Ganol y Coed, Penrhyndeudraeth/ Notice - Closure of the Road from the Factory to Canol y Coed, Penrhyndeudraeth - Er gwybodaeth/FYI.

9.2 Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith/ Work Schedule - Er gwybodaeth/FYI.

9.3 Un Llais Cymru - Nodiadau Datblygu Ymarfer/ Practice Development Notes - Er gwybodaeth/FYI.

9.4 Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd/ *Consultation on the Gwynedd Visitor Levy Proposal* - Er gwybodaeth/FYI.

9.5 Cyngor Gwynedd - Rhybudd - Cau Ffordd yr A4085 ym Mhenrhyndeudraeth/ *Notice - Closure of the A4085 Road in Penrhyndeudraeth* - Er gwybodaeth/FYI.

9.6 Cyngor Gwynedd - Rhybudd- Caead Argyfwng - Ffordd yr A4085 ym Mhenrhyndeudraeth/ *Notice - Emergency Closure - The A4085 Road in Penrhyndeudraeth* - Er gwybodaeth/FYI.

9.7 Dref Werdd - Rhaglen Mehefin 2026/ *June 2026 Programme* - Er gwybodaeth/FYI.

9.8 Cyngor Gwynedd - Hysbysiad Adroddiad Gwrthwynebu Ysgol y Garreg/ *Objection Notice* - Er gwybodaeth/FYI.

10. Materion Cynllunio/Planning Matters

10.1 Ymgynghoriad Cynllunio/Planning Consultation: Rhif Cais/App Ref: C26/0163/08/CR - BOSTON LODGE WORKS, Minffordd, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6HT - Dim gwrthwynebiad/ *No objections*.

11. Adroddiadau/Reports

11.1 Adroddiad misol Cynghorydd sir Meryl Roberts *County Councillor monthly report* - Cadarnhaodd MR ei bod wedi cytuno i helpu yn Ysgol Ardudwy ar foreau dydd Mawrth gyda phlant sy'n cael trafferth mynd i'w gwersi. Soniodd hefyd ei bod wedi cysylltu â BD o Hochief, ac maent wedi cytuno i baentio'r meinciau ym Mhenrhyn a Minffordd. Mae CG hefyd wedi cytuno i osod dau fin sbwriel ychwanegol yn yr ardal, un wrth ochr Cae Cookes a'r llall ar ddiwedd Pont Briwet/ *MR confirmed that she has agreed to help at Ysgol Ardudwy on Tuesday mornings with children who are having difficulties attending classes. She also mentioned that she has been in contact with BD from Hochief, and they have agreed to paint the benches in Penrhyn and Minffordd. CG has also agreed to install two additional litter bins in the area, one near Cae Cookes and the other towards the end of Bont Briwet.*

Dyddiad cyfarfod nesaf 9 o Orffennaf 2026 7yh yn y Neuadd Drefol/ Date and location of next meeting 9 July 2026 7pm in the Neuadd Drefol